# Memorandwm ar gostau sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru

**Hydref 2003**

## Memorandwm ar gostau sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru

1. Ym mis Ebrill eleni, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru fersiwn ddrafft o Fesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) at ddibenion ymgynghori a chraffu cyn iddo ddod yn ddeddfwriaeth. Byddai'r Mesur, pe câi ei ddeddfu, yn dod â gwaith cyfredol Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Archwilio Cymru ynghyd yn un corff archwilio o dan reolaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru ac enw'r sefydliad fyddai Swyddfa Archwilio Cymru. Y rhagdybiaeth waith gyfredol yw y caiff y corff hwn ei sefydlu ar 1 Ebrill 2005.

2. Cydnabu'r Asesiad Effaith Reoliadol a gyhoeddwyd gyda'r Mesur nad yw'n bosibl sefydlu corff o'r natur hwn heb gost. Er enghraifft, byddai angen i'r corff drefnu ar gyfer y ddarpariaeth o wasanaethau technoleg gwybodaeth annibynnol er mai'r sefyllfa gyfredol yw bod Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Archwilio Cymru yn gweithredu gan ddefnyddio systemau technoleg gwybodaeth canolog. Mae'r Llywodraeth wedi amcangyfrif (yn yr asesiad Effaith Reoliadol) na ddylai'r gost o sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru fod yn fwy na £500,000. Fodd bynnag, cydnabu'r Ysgrifennydd Gwladol y byddai'n anodd adeg hynny, i ddarparu unrhyw amcangyfrif diffiniol o gostau.

3. Bydd yn rhaid i rai o'r costau trawsnewidiol hyn gael eu gwario yn 2004-05 os yw'r corff newydd i gael ei sefydlu ar 1 Ebrill 2005. Yn dilyn ymgynghori â chydweithwyr yn y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, rwyf bellach yn gallu rhoi syniad o natur a graddfa bosibl y costau sefydlu yr wyf yn debygol o'u gwario yn 2004-05 i'r Pwyllgor Archwilio. Caiff y rhain eu nodi yn y tabl yn Atodlen A ac yn y nodiadau eglurhaol amgaeëdig. Yn ystod y cam cynnar hwn, fy amcangyfrif gorau yw y bydd angen tua £400,000 arnaf. Fodd bynnag, bydd rhai o'r amcangyfrifon hyn yn parhau i fod yn amcangyfrif gorau nes bydd y Mesur wedi cyrraedd y llyfr statud a'n bod yn gallu eu coethi, er enghraifft drwy gyhoeddi gwahoddiadau i dendro am ddarparu'r gwasanaethau.

4. Gan nad yw'r Mesur wedi cael ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Senedd eto, ni allwn gynnwys unrhyw gostau trawsnewidiol sy'n debygol o gael eu gwario yn 2004-05 yn fy mhrif amcangyfrif o incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn honno a gânt eu hystyried gan y Pwyllgor ar 23 Hydref 2003. O ganlyniad, caiff y papur hwn ei gyflwyno er gwybodaeth yn unig yn ystod y cam hwn a bwriadaf gyflwyno

amcangyfrif atodol ffurfiol gerbron y Pwyllgor ar gyfer 2004-05 unwaith y bydd y Mesur wedi derbyn ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin.

5. Mae'n rhaid i mi bwysleisio mai awgrym yw'r costau a nodir yn Atodlen A ar hyn o bryd. Mae cryn dipyn o waith ar ôl i'w wneud ar fanylu'n union ar beth sydd ei angen, paratoi manylebau a gosod contractau; dim ond bryd hynny y bydd amcangyfrif mwy cywir ar gael. Fodd bynnag, ni fyddai'n arferol nac yn briodol i mi ddechrau ar y gwaith hwn yn ystod camau cynnar y broses ddeddfwriaethol hon.

6. Bydd rhai o'r costau unigol a gaiff eu gwario wrth sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru yn digwydd ar ôl mis Ebrill 2005, unwaith y bydd y sefydliad newydd wedi dod i fodolaeth. Mae hyn yn debygol o fod yn arbennig o berthnasol i unrhyw waith sydd ei angen i gwblhau ei safle a'i seilwaith technoleg gwybodaeth. Yn ystod y cam hwn, yn absenoldeb gwybodaeth gadarn o ran y cyfanswm costau sy'n ymwneud â'r gwaith a'u hamseru, ni allaf ddweud yn union faint fydd ei angen yn ychwanegol at y £400,000 yr wyf yn debygol o fod yn gwneud cais amdano yn ystod 2004-05. Yn y cyfamser, gan nad oes gennyf unrhyw reswm i herio'r cyfanswm costau o £500,000 a amcangyfrifwyd gan y Llywodraeth, fy rhagdybiaeth waith ar gyfer 2005-06 yw y byddaf angen balans o £100,000 neu swm sy'n agos i hyn. Gan y bydd y costau hyn yn digwydd yn 2005-06, byddaf yn eu dwyn i sylw'r Pwyllgor yn ei gyfarfod cyfatebol hydref nesaf pan fydd yn amser ystyried fy Amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn honno.

**John Bourn**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

*3-4 Plas y Parc*
*Caerdydd*
*CF10 3DP*

*9 Hydref 2003*

**Atodlen A**

**Costau trawsnewidiol a ragwelir y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn eu gwario yn 2004-05**

| ***Elfen*** | ***Cost a ragwelir ar gyfer 2004-05 £000*** | ***Cyfeirnod*** |
|---|---|---|
| Rheolwr Prosiect | 110 | i |
| Adnoddau Dynol: cyngor technegol a chyfreithiol | 70 | ii |
| Technoleg Gwybodaeth | 150 | iii |
| Safle | 50 | iv |
| Wrth gefn | 20 | |
| **CYFANSWM** | **400** | |

**Nodiadau eglurhaol**

i. Mae llawer iawn o waith ymarferol yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod creu Swyddfa Archwilio Cymru – sef cyfuno Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Archwilio Cymru i bob pwrpas – yn parhau mor esmwyth ag sy'n bosibl. Mae'r Comisiwn Archwilio a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn bwriadu penodi rheolwr prosiect i ymgymryd â'r gwaith hwn yn dilyn cystadleuaeth agored.

ii. Elfen bwysicaf y sefydliad newydd os yw am fod yn llwyddiannus yw'r staff. Ar hyn o bryd, er bod y gwaith y maent yn ei wneud mewn nifer o achosion yn debyg, mae gan staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a staff y Comisiwn Archwilio yng Nghymru wahanol delerau ac amodau, arferion gwaith, graddau, strwythurau gyrfa, trefniadau tâl a chynlluniau pensiwn. Mae harmoneiddio'r holl elfennau hyn pan gaiff contractau cyflogaeth eu trosglwyddo i Swyddfa Archwilio Cymru yn debygol o ofyn am lefel uchel o fewnbwn adnoddau dynol arbenigol.

iii. Erbyn hyn, mae technoleg gwybodaeth effeithiol a dibynadwy yn hanfodol wrth gynnal sefydliadau'n effeithlon. Ar hyn o bryd, mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn dibynnu'n helaeth ar wasanaethau technoleg gwybodaeth a ddarperir gan eu rhiant sefydliadau. Er mwyn i Swyddfa Archwilio Cymru weithredu'n gywir o'r dechrau, mae angen iddi feddu ar seilwaith technoleg gwybodaeth, gan gynnwys ei wasanaethydd ebost ei hun, cysylltiad rhwydwaith rhwng y ddwy swyddfa gyfredol a thrwyddedau meddalwedd.

iv. Ar hyn o bryd, mae gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru eu hunaniaethau a'u diwylliannau cryf eu hunain, y mae angen eu tynnu ynghyd o fewn y sefydliad newydd. Er mwyn helpu i ddechrau'r broses hon cyn y caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei chreu, efallai y bydd y ddau sefydliad cyfredol yn dymuno cydleoli rhai o'u staff. Mae hyn yn debygol o fod â goblygiadau cost ar gyfer paratoi gweithfannau, ailweirio ac ati.